



Yr Athro David Thomas

Cyfarwyddwr Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd Sêr Cymru

David Thomas yw Cyfarwyddwr Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd Sêr Cymru. Mae wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, lle mae hefyd yn dal Cadair Bywydeg y Môr yn Ysgol Gwyddorau'r Eigion ym Mhorthaethwy. Gwnaeth ei ddoethuriaeth yn Lerpwl gan astudio ffisioleg gwymon, cyn treulio 7 mlynedd yn yr Almaen yn gweithio ar brosiectau cefnforeg yn yr Antarctig, yr Arctig a'r Môr Coch. Ar ôl dychwelyd i'r DU sefydlodd grwpiau oedd yn gweithio ar biogeocemeg rhew'r môr, y rhyngweithio rhwng daear a môr, ac ar gynhyrchu biodanwydd o bioadweithyddion algaid. Mae hefyd yn weithgar mewn mentrau i ddefnyddio planhigion morfa er mwyn tynnu maetholion o ddŵr gwast sy'n golchi o lynnoedd pysgod. O 2009 hyd 2013 bu'n dal Cadair Arbennig gan Academi'r Ffindir, a threuliodd ddwy flynedd a hanner yn byw yn Helsinki tra ei fod yn gweithio yn Sefydliad Amgylchedd y Ffindir, lle mae'n parhau i ddal cadair ymchwil. Yn 2013 treuliodd 10 mis yng Nghadair Bywydeg y Môr Arctig ym Mhrifysgol Aarhus, Denmarc. Mae'n bleser ganddo gyflwyno'i wybodaeth wyddonol i'r cyhoedd, drwy anerchiadau a thrwy ysgrifennu gwerslyfrau a llyfrau i gynulleidfaoedd y tu hwnt i'r byd academiaidd. Yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi magu diddordeb cynyddol yn y cyswllt rhwng bywydeg arsylwadol a chelf a dylunio.